

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR GWAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>19 GORFFENNAF 2022</b>
<b>PWNC:</b>	<b>FFIOEDD CARTREFI PRESWYL A NYRSIO 2022/23</b>
<b>AELOD(AU) PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO (ADNODDAU) Y CYNGHORYDD ALUN ROBERTS – AELOD PORTFFOLIO (GWASANAETHAU OEDOLION)</b>
<b>PENNAETH GWASANAETH:</b>	<b>MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 ARWEL WYN OWEN – PENNAETH GWASANAETH OEDOLION</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD:</b> <b>FFÔN:</b> <b>E-BOST:</b>	<b>MARC JONES</b> 01248 752601 rmjfi@ynysmon.gov.uk
<b>AELODAU LLEOL:</b>	<b>Pob Aelod</b>

### A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau

- (i) Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo cynyddu'r ffioedd ar gyfer gofal preswyl a nyrsio fel y nodir yn y tabl isod:-

<b>Categori</b>	<b>Y ffi wreiddiol ar gyfer 2022/23</b>	<b>Y ffi arfaethedig ar gyfer 2022/23</b>	<b>Cynnydd o'r ffi wreiddiol ar gyfer 2022/23</b>
Preswyl	£636.80	£643.78	£6.98
Preswyl (Henoed Bregus eu Meddwl)	£707.17	£772.29	£65.12
Nyrsio	£703.79*	£752.26*	£48.47
Nyrsio (Henoed Bregus eu Meddwl)	£800.88*	£896.19*	£95.31

Noder nad yw'r ffioedd sydd wedi'u marcio â \* yn cynnwys y cyfraniad iechyd tuag at ofal nyrsio, sydd ar hyn o bryd yn £179.97.

- (ii) Bod y newid yn y ffioedd yn dod yn weithredol o'r wythnos yn dechrau 17 Gorffennaf 2022, fydd yn caniatáu amser i adael i'r cleientiaid a'r cartrefi wybod am y newid a sicrhau fod y newid yn cydfynd â'r patrwm anfonebu.

### B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd pob math o wahanol opsiynau, ynghyd â pheidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r ffioedd ar gyfer 2022/23. Mae'r opsiwn arfaethedig yn cydnabod y cynnydd mewn costau a wynebir gan ddarparwyr, ac mae'n cadw at y pecyn cymorth rhanbarthol fel dull o gyfrifo'r ffioedd, yn ogystal â chydabod y pwysau cynyddol a wynebir gan ddarparwyr oherwydd chwyddiant.

### C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae pennu ac adolygu'r ffioedd a delir i gartrefi nyrsio a phreswyl yn fater a ddirprwyir i'r Pwyllgor Gwaith.

<b>CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?</b>		
Mae sail y penderfyniad yn gyson â pholisi'r Cyngor i ddefnyddio'r pecyn cymorth rhanbarthol i bennu lefel y ffi ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio.		
<b>D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?</b>		
Mae'r Cyngor wedi pennu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23. Bydd y costau ychwanegol yn sgil y penderfyniad hwn yn cael eu cyllido o gronfeydd a chyllidebau wrth gefn clustnodedig.		
<b>Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):</b>		
<b>1</b>	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Bydd yr adolygiad yn lleihau'r risg o ddiffyg yn y farchnad a sicrhau bod cartrefi gofal ar yr Ynys yn dal i weithredu a chwrdd ag anghenion cleientiaid i'r dyfodol.
<b>2</b>	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?	Heb gynyddu'r ffioedd, mae risg y gallai'r farchnad sector breifat fethu, gan arwain at anghydwysedd o ran y cyflenwad a'r galw, ac fe allai hynny gynyddu costau hyd yn oed yn fwy ac arwain at orddibyniaeth ar nifer lai o ddarparwyr.
<b>3</b>	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy	Pennwyd y ffioedd preswyl a nyrsio yn dilyn trafodaethau rhanbarthol blynyddol. Mae'r cynnydd arfaethedig hwn yn dilyn trafodaethau pellach a gynhaliwyd rhwng y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru ar lefel rheoli Gwasanaeth a chan dimau Cyllid.
<b>4</b>	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut.	Mae'r cynnydd arfaethedig yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr sector breifat a theluoedd cleientiaid sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi preswyl a nyrsio.
<b>5</b>	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Ni fydd y cynigion yn effeithio'n benodol ar unrhyw grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf.
<b>6</b>	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Yn sgil y penderfyniad i gynyddu'r ffioedd a delir, efallai y bydd darparwyr preifat yn dewis lleihau neu beidio â chodi ffioedd atodol ar gleientiaid o gwbl, rhai a all fod yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
<b>7</b>	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Heb ganfod unrhyw effaith.
<b>E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
<b>1</b>	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)</b>	Mae sylwadau'r UDA wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.
<b>2</b>	<b>Cyllid / Adran 151 Finance (gorfodol)</b>	Amherthnasol – dyma adroddiad y Swyddog Adran 151.
<b>3</b>	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)</b>	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed ganddi wedi cael eu hystyried wrth i'r UDA drafod yr adroddiad.
<b>4</b>	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Amherthnasol
<b>5</b>	<b>Eiddo</b>	Amherthnasol

6	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	Amherthnasol
7	<b>Sgriwtini</b>	Amherthnasol
8	<b>Aelodau Lleol</b>	Amherthnasol
9	<b>Unrhyw gyrff allanol eraill</b>	Amherthnasol
<b>F - Atodiadau:</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Atodiad 1 – Adroddiad ar y newidiadau arfaethedig i'r ffioedd a delir</li> </ul>		
<b>FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwyllgor Gwaith – 3 Mawrth 2022 – Eitem 13 – Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2022/23</li> </ul>		

## FFIOEDD CARTREFI GOFAL DIWYGIEDIG 2022/23

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn pennu'r ffi safonol mewn perthynas â lleoliadau cartrefi preswyl a nyrsio. Pennir ffi ar gyfer y 4 math gwahanol o leoliad (Preswyl, Preswyl Henoed Bregus eu Meddwl, Nyrsio a Nyrsio Henoed Bregus eu Meddwl).
- 1.2 Pennir y ffioedd gan ddefnyddio'r pecyn cymorth rhanbarthol a gytunwyd, sydd yn addasiad o becyn cymorth Laing & Buisson, ac mae'r prisiau ar gyfer gwahanol benawdau gwariant yn cael eu huwchraddio'n flynyddol yn seiliedig ar asesiad y gweithgor sy'n cynnwys swyddogion o'r 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Wrth gwblhau'r asesiad, mae'r Gweithgor yn ystyried gwybodaeth yn ymwneud â chostau a ddarperir gan sampl o ddarparwyr ar draws y 4 math gwahanol o ddarpariaeth gofal.
- 1.3 Mae'r ffioedd a gytunwyd ym mis Mawrth 2022 ar gyfer 2022/23 i'w gweld yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**  
**Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio 2022/23**

Categori	2021/22	2022/23	Cynnydd	% Cynnydd
Preswyl	£596.01	£636.80	£40.79	6.84%
Preswyl (Henoed Bregus eu Meddwl)	£631.40	£707.17	£75.77	12.00%
Nyrsio	£657.04	£703.79	£45.75	7.12%
Nyrsio (Henoed Bregus eu Meddwl)	£715.07	£800.88	£85.81	12.00%

- 1.4 Roedd y cynnydd yn y ffi yn seiliedig ar y cynnydd mewn costau cyflogau i sicrhau bod darparwyr mewn sefyllfa i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Roedd y cynnydd mewn costau heb fod yn rhai gofal yn seiliedig ar y gyfradd chwyddant pan gafodd y ffioedd eu pennu ynghyd â'r rhagolygon chwyddiant i'r dyfodol. Mae Ynys Môn wedi gwyro oddi wrth y model rhanbarthol drwy gynyddu'r elw ar fuddsoddiad ar gyfer gofal Preswyl a Nyrsio i Henoed Bregus eu Meddwl, er mwyn annog buddsoddiad yn y ddau faes hwn gan mai dim ond nifer gyfyngedig o welyau sydd ar gael ar yr Ynys.
- 1.5 Yn dilyn cyhoeddi'r ffioedd ym mis Mawrth 2022, derbyniodd y Cyngor sylwadau gan gartrefi gofal unigol a'r sector yn gyffredinol. Roeddent o'r farn nad oedd y ffi'n ddigonol i gwrdd â'r costau gofal gwirioneddol yn enwedig oherwydd bod chwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r Gweithgor benderfynu ar lefel y chwyddiant, yn enwedig mewn perthynas â chostau ynni a bwyd.

## 2. Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R FFFIOEDD AR GYFER 2022/23

- 2.1 Mae cynaliadwyedd y sector cartrefi gofal yn ystyriaeth bwysig i'r Cyngor ac, wrth bennu'r ffioedd, mae'n rhaid ystyried gwir gost y ddarpariaeth gofal a sicrhau cynaliadwyedd y farchnad i'r dyfodol.
- 2.2 Ystyrir bod y model rhanbarthol yn dal i fod yn arf bwysig ar gyfer pennu'r ffioedd yn flynyddol a rhaid unrhyw newidiadau fod yn seiliedig ar allbwn y pecyn cymorth. Fodd bynnag, rhaid i'r ffactorau a ddefnyddir yn y pecyn cymorth adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran y costau y mae cartrefi gofal yn eu hwynebu.

- 2.3** Ar ôl ystyried sylwadau'r cartrefi unigol a'r sector yn gyffredinol, a'r cynnydd cyflym mewn chwyddiant, yn benodol yn dilyn y rhyfel yn Wcráin, bernir y dylid adolygu'r strwythur ffioedd presennol ar gyfer 2022/23.
- 2.4** Dylid nodi hefyd bod y gwahaniaeth rhwng y ffioedd a delir yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â'r cyfraddau a delir yn Ne Cymru wedi bod yn destun adroddiadau yn y wasg, yn cynnwys sylwadau negyddol bod y ffioedd a delir yng Ngogledd Cymru'n rhy isel. Fodd bynnag, mae'r Cyngor o'r farn bod y ffioedd a bennwyd yn adlewyrchiad teg o'r costau a wynebwyd gan gartrefi gofal pan aethpwyd ati i bennu'r ffioedd, ac nad oedd modd rhagweld y cynnydd cyflym mewn chwyddiant ar yr adeg.
- 2.5** Er bod y ffi ar gyfer gofal i Henoed Bregus eu Meddwl wedi cynyddu 12% yn 2022/23, o'i gymharu â 7% ar gyfer gofal preswyl a nyrsio safonol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Henoed Bregus eu Meddwl yn dal i fod yn brin ac mae darparwyr yn codi ffioedd uwch ar breswylwyr drwy godi ffioedd atodol. Cafodd hyn ei ystyried yn ogystal wrth ailasesu'r ffioedd ar gyfer 2022/23.
- 2.6** Dylid nodi hefyd bod risg na fydd y Cyngor mewn sefyllfa i gomisiynu lleoliadau newydd ar y lefel ffioedd presennol, ac y gallai cartrefi wrthod derbyn lleoliadau newydd. Bydd hyn yn arwain at oedi wrth drosglwyddo cleientiaid o'r ysbyty neu pan fydd cleientiaid bregus yn byw yn eu cartrefi eu hunain ac, o ganlyniad, mae'n bosib na fydd y Cyngor yn gallu cwrdd ag anghenion y cleient ym mhob achos os bydd y sefyllfa'n parhau.
- 2.7** Cynigir felly bod y lefel chwyddiant (CPI) a ddefnyddiwyd yn y pecyn cymorth gwreiddiol yn cael ei gynyddu o 3.1% i'w lefel bresennol, sef 9%, ar draws y pedwar sector. Yn ogystal, bod yr oriau gofal ar gyfer y sector Preswyl i Henoed Bregus eu Meddwl a'r sectorau Nyrsio a Nyrsio i Henoed Bregus eu Meddwl yn seiliedig ar gyfartaledd y model Laing & Buisson safonol a'r oriau a awgrymwyd gan y darparwyr.
- 2.8** Yn seiliedig ar y newidiadau uchod, mae'r ffioedd arfaethedig i'w gweld yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**  
**Y Ffioedd Diwygiedig Arfaethedig ar gyfer 2022/23**

<b>Categori</b>	<b>Y ffi wythnosol wreiddiol ar gyfer 2022/23</b>	<b>Y ffi wythnosol arfaethedig ar gyfer 2022/23</b>	<b>Cynnydd o'r ffi wythnosol wreiddiol ar gyfer 2022/23</b>
Preswyl	£636.80	£643.78	£6.98
Preswyl (Henoed Bregus eu Meddwl)	£707.17	£772.29	£65.12
Nyrsio	£703.79*	£752.26*	£48.47
Nyrsio (Henoed Bregus eu Meddwl)	£800.88*	£896.19*	£95.31

Noder nad yw'r ffioedd sydd wedi'u marcio â \* yn cynnwys y cyfraniad iechyd tuag at ofal nyrsio, sydd ar hyn o bryd yn £179.97.

- 2.9** Er mwyn rhoi digon o amser i hysbysu cleientiaid a chartrefi ynglŷn â'r newid, ac i sicrhau bod y newid yn cyd-fynd â'r patrwm anfonebu, cynigir bod y newid yn dod yn weithredol ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu presennol, sef 17 Gorffennaf 2022.
- 2.10** Wrth roi'r ffioedd hyn ar waith ar 17 Gorffennaf 2022, rhagdybir y bydd y gost ychwanegol i'r Cyngor tua £227,000. Fe all y costau gwirioneddol amrywio yn ddibynnol ar nifer y cleientiaid ym mhob category.

**2.11** Mae £2.25m wedi'i glustnodi yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor i ymorol am gostau'n gysylltiedig â chwyddiant yn 2022/23, a bydd yr arian a glustnodwyd yn cael ei ddefnyddio i dalu'r costau ychwanegol.

**2.12** Bydd y newid arfaethedig hefyd yn cynyddu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24, a bydd angen gwneud addasiad o £323,000 i'r gyllideb sylfaenol fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24.

### **3. EFFAITH Y NEWID ARFAETHEDIG**

**3.1** Bydd y ffioedd arfaethedig yn golygu bod y ffioedd safonol a delir gan Ynys Môn yn uwch na'r ffi gyfartalog yng Nghymru.

**3.2** Bydd y cynnydd arfaethedig, a'r ffaith bod y Cyngor wedi ystyried y costau presennol a wynebir gan ddarparwyr, yn lliniaru'r risg o her gyfreithiol gan ddarparwyr.

**3.3** Bydd y cynnydd yn galluogi'r Cyngor i gael trafodaeth gyda darparwyr ynglŷn â'r angen i godi ffioedd atodol ar deuluoedd preswylwyr sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi.

**3.4** Mae'r ffaith bod y newid arfaethedig yn dal i fod yn seiliedig ar y pecyn cymorth rhanbarthol yn golygu bod methodoleg gyson wedi cael ei defnyddio wrth bennu'r ffioedd ac y gall y Cyngor barhau i ddibynnu ar y dull hwn yn y dyfodol, er y nodir ei bod hi'n bosib y bydd Cyngorau eraill yn symud oddi wrth y pecyn cymorth a'r dull rhanbarthol.

Bydd y cynnydd yn helpu i gynnal y ddarpariaeth ac yn annog darpariaeth fwy arbenigol a fydd yn cyfrannu tuag at nod y Cyngor o ddiogelu a sicrhau lleoliadau ar Ynys Môn i drigolion Ynys Môn.